Cymunedau'n creu newid

Effaith a'r hyn a ddysgwyd mewn tair blynedd o Drawsnewid gyda'n Gilydd

Rhagarweiniad

Bob diwrnod, mae cymunedau'n ymateb i heriau mwyaf ein hoes. Ers tair blynedd mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi cefnogi rhwydwaith o 270 o grwpiau a seilir mewn lleoliadau, sy'n cymryd camau ymarferol, ar lefel leol, i ail-ddychmygu a meithrin dyfodol isel o safbwynt carbon, gwydn, a chyfiawn o safbwynt cymdeithasol ar gyfer eu cymunedau. Mae'r grwpiau hyn yn creu llwybrau newydd i bobl weithredu ar yr argyfwng hinsawdd, anghydraddoldeb, tlodi a chymunedau sy'n chwalu.

Trwy gysylltu unigolion sy'n hyrwyddo newid ar-lein ac oddi ar-lein, cynnig hyfforddiant, cyfleoedd rhannu sgiliau, cyllid sbarduno a thrwy rannu straeon o lwyddiant, rydym wedi cefnogi grwpiau newydd ynghyd â rhai oedd yn bodoli eisoes, dan arweiniad y gymuned trwy ddefnyddio dulliau Trawsnewid ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, ac rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda'n partneriaid, Scottish Communities Climate Action Network.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn olrhain y gwahaniaeth a wneir gan y rhwydwaith hwn o grwpiau trwy greu lle i bobl ddod ynghyd ar draws gwahaniaeth, i gael hyd i atebion newydd ac ymatebion i bryderon cyfredol. Ac mae'n olrhain sut mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi cefnogi grwpiau i fod yn fwy effeithiol, gael mwy o effaith a chysylltiad, i gychwyn mentrau newydd, i rannu'r hyn a ddysgwyd ac i dyfu a chynnal eu gwaith.

Beth yw Trawsnewid?

Ystyr Trawsnewid yw newid – sut gallwn ni symud o un realiti i realiti arall. Cychwynnodd y Mudiad Trawsnewid ym Mhrydain a'r Iwerddon yn 2006 ac erbyn hyn

mae rhwydwaith rhyngwladol o gymunedau ar waith mewn 50 o wledydd. Yn 2021, derbyniodd Trawsnewid gyda'n Gilydd gyllid trwy raglen Tyfu Syniadau Gwych y Gronfa Loteri Genedlaethol er mwyn cefnogi datblygu gweithgareddau Trawsnewid yn y DU.

Seilir dulliau gwaith Trawsnewid ar lawr gwlad, dan arweiniad y gymuned ac maent yn holistaidd eu natur, er mwyn ystyried y newidiadau gwahanol y mae angen eu gwneud i greu dyfodol teg, gwydn, a llewyrchus ar gyfer ein lleoliad ni a phawb sy'n byw yno. O safbwynt ymarferol, mae grwpiau Trawsnewid yn sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy, maent yn ad-leoli systemau bwyd, yn ysgogi entrepreneuriaeth, yn ailwylltio dinasoedd ac yn gweu cysylltiadau a chymorth ymhlith pobl a grwpiau.

Pobl leol a blaenoriaethau lleol sy'n llywio'r gweithgareddau - felly maent yn amrywio mewn gwahanol leoliadau ac yn addas i'r cyd-destun lleol. Er hynny, mae'r gwerthoedd ac ymarferion isod yn uno'r holl gymunedau Trawsnewid:

- **Cydweithredu a chyfranogi** – trwy gydweithio fel cymuned, cawn fwy o effaith nag fel unigolion. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i feithrin partneriaethau creadigol a phwerus ar draws a thu hwnt i Drawsnewid.
- **Gweledigaeth a dychymyg** – mae pobl yn uno ar sail gweledigaeth gyffredin o ddyfodol cadarnhaol sy'n ysgogi ac yn cynnal eu gwaith
- **Trawsnewid Cyfiawn** – gweithio tuag at ddyfodol lle gall pobl o bob cefndir gysylltu, ffynnu, diwallu eu hanghenion a chwarae rhan gyfartal o safbwynt siapio newid.
- **Dysgu a rhannu gwybodaeth a grym** - mae gan bawb hawl yn y broses a gellir dyblygu atebion yn rhwydd.
- **Gweithredu ymarferol** – pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithredu amlwg sy'n cael effaith weladwy ar eu lleoliadau a'u cymdogion, maent yn gofyn, beth arall gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd?

Gwrando ar gyfranogwyr Trawsnewid yn rhannu arwyddocâd trawsnewid iddyn nhw.

Gogledd Iwerddon
Mae 9 grŵp yng Ngogledd Iwerddon; a chrëwyd cysylltiadau newydd yng Nghynhadledd Hydref 2024.

Yr Alban
Mae SCCAN, ein partner yn yr Alban, yn cefnogi 1,200 o grwpiau a rhwydwaith o hybiau hinsawdd lleol.

Lloegr
Mae 245 o grwpiau Trawsnewid yn bodoli ar draws Lloegr, gyda rhwydweithiau a chysylltiadau lleol yn cefnogi gwaith lleol.

Cymru
Cafodd 16 grŵp yng Nghymru eu proffilio yn Wythnos Hinsawdd Cymru 2024.

209 yn Tyfu bwyd ac yn newid systemau bwyd lleol

89 yn ail-ddyfeisio dulliau creu a defnyddio ynni

103 yn rhedeg hybiau cymunedol a lleoliadau i greu cysylltiadau

112 o brosiectau natur ac ail-wylltio

106 o brosiectau atgyweirio, rhannu, a chylchol

61 o brosiectau teithio/trafnidiaeth lleol

51 yn rhedeg prosiectau economi lleol a newydd

4,156 o wirfoddolwyr yn cyfrannu

105,500 o bobl yn cyfrannu ar draws cymunedau

Pa wahaniaeth y mae Trawsnewid yn ei wneud?

Tu hwnt i'r niferoedd, mae cymunedau Trawsnewid yn cael effaith hirdymor yn y ffyrdd canlynol:

1. **Ymgysylltu rhagor o bobl o ran gweithredu ar yr hinsawdd**
   Wrth galon eu cymunedau a thrwy gydweithredu, mae grwpiau Trawsnewid yn cynyddu nifer y bobl newydd sy'n ymwybodol o ac yn gweithredu ar faterion hinsawdd a bioamrywiaeth. Yn 2024, nododd 87% o'r grwpiau a gymerodd rhan mewn arolwg, eu bod nhw wedi cynyddu ymwybyddiaeth am yr argyfyngau hyn, a sut i ymateb, ymhlith eu poblogaethau lleol.

Mae Sustainable Starts yn Lerpwl yn helpu teuluoedd newydd i rannu ac ail-ddefnyddio mwy trwy eu grŵp chwarae eco a thrwy gynllun cyfnewid rheolaidd. Sefydlwyd y grŵp gan bedwar rhiant, a'u nod yw ei wneud mor rhwydd â phosibl i deuluoedd prysur arbed arian a lleihau gwastraff, ac ar yr un pryd ail-ddefnyddio eitemau a chysylltu ag eraill er mwyn rhannu adnoddau, trafferthion a syniadau.

2. **Cael hyd i a gweithredu atebion yn y gymuned**
   Mae cymunedau sy'n arfer dulliau Trawsnewid yn dod o hyd i asiantaeth ar y cyd, gan gymryd camau ymarferol a gweladwy i dyfu a rhannu rhagor o fwydydd lleol, gwneud mwy o ail-ddefnyddio ac atgyweirio, i adfer natur a rhagor. Nododd saith o bob deg grŵp Trawsnewid a oedd yn rhan o arolwg, sut maent wedi rhoi ymatebion newydd, cyffyrddadwy i'r argyfwng hinsawdd. Seilir yr ymatebion hyn yn y gymuned, ac maent yn berthnasol i anghenion lleol ac yn fwy tebygol o gael eu cynnal a'u tyfu dros amser.

Trawsnewidiwyd siop ffasiwn gyflym oedd yn wag gan Zero Guildford yn hwb ar gyfer digwyddiadau yn y gymuned, Llyfrgell Pethau, oergell gymunedol a chaffi fegan. Dros amser, mae'r lleoliad a'r cysylltiadau amrywiol wedi meithrin mentrau newydd – mae 200 o ddinasyddion gwyddonol wedi profi ansawdd y dŵr, sefydlwyd llyfrgell dillad i fabanod, rhwydwaith busnes cynaliadwy a gwasanaeth cyngor ar ynni cartref. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, llwyddodd eu gweithgareddau i arbed 582 tunnell o garbon. Maent wedi rhannu eu dulliau gwaith gyda 40 o gymunedau eraill sy'n gweithio i sefydlu hybiau tebyg, gan gynnwys trwy sesiynau rhannu sgiliau Trawsnewid.

3. **Cryfhau cysylltiadau yn y gymuned**
   Mae grwpiau Trawsnewid yn creu ac yn dal lleoliadau yn y gymuned lle gall pobl ddod ynghyd o gefndiroedd gwahanol, dod o hyd i gysylltiadau, darganfod eu llais a'u grym i weithredu. Mae 99 o grwpiau yn cynnal digwyddiadau, gwyliau, mae 103 yn rhedeg hybiau cymunedol a hinsawdd, ac mae 106 yn cynnal caffis atgyweirio a mannau rhannu adnoddau. Mae'r rhain oll yn dod â phobl at ei gilydd i gael hyd i dir cyffredin a gweledigaeth gyffredin ar gyfer eu lleoliad unigol nhw, gan weu adeiledd cymdeithasol newydd a meithrin cydgysylltiad.

Mae Grow, grŵp Trawsnewid ym Melfast yn rhedeg pum gardd gymunedol, pob un ohonynt mewn lleoliadau lle daw cymunedau gwahanol ynghyd: y sawl mewn tlodi bwyd, mewn ardaloedd lle mae angen dybryd am dai, lle daw cymdogion Protestant a Chatholig ar draws ei gilydd, a gyda menywod sydd wedi dianc rhag rhyfel. Maent yn tyfu bwyd a pherlysiau meddyginiaethol, ond maent hefyd yn meithrin cysylltiadau cadarn rhwng pobl, gan gynnig lle i ddianc rhag y pwysau dyddiol a'r trawma sy'n effeithio ar gyfranogwyr.

Y Stori lawn

4. **Llais a grym y gymuned**
   Mae grwpiau Trawsnewid yn helpu cymunedau i gynllunio a blaenoriaethu'r newidiadau lleol maent am eu gweld, a mynd i'r afael ag anghenion lleol. Trwy Gynulliad y Dinasyddion, dyddiau creu gweledigaeth neu gaffis hinsawdd rheolaidd, maent yn dod â phobl a grwpiau gwahanol at ei gilydd i lunio gweledigaeth gyffredin ar gyfer eu lleoliad, ac i lunio cynllun a mentrau ymarferol i'w gwireddu.

Dechreuodd Transition Wilmslow llunio rhwydwaith o erddi marchnad lleol (chwith), ar ôl i'r pandemig amlygu pa mor fregus oedd cadwyni cyflenwi bwyd. Am 10 mlynedd maent wedi hyrwyddo adfer gwarchodfa Lindow Moss, gan ennill cefnogaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac yn 2024, enillwyd cyllid sylweddol i adfer y cynefin mawn unigryw. Darllen rhagor

5. **Cydweithredu ar draws sectorau?**
   Trwy weithio ar draws problemau a sectorau, mae grwpiau Trawsnewid yn dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd yn eu cymunedau. Maent yn dod â llais y gymuned gerbron cynghorau lleol a chyrff cyhoeddus, ac yn aml maent yn creu partneriaethau gyda nhw i arloesi ac amlygu atebion ar lawr gwlad. Bydd llawer yn gweithio gyda busnesau lleol neu'n meithrin eu prosiectau economi cymdeithasol eu hunain i fagu economi lleol gwydn a theg sy'n ffynnu sy'n diwallu anghenion y gymuned heb beri niwed i bobl neu'r blaned. Mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi chwarae rôl allweddol o ran cefnogi'r rhwydwaith CTRLShift i gefnogi prosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar symud grym mewn cymunedau lleol yn ogystal â dod â sefydliadau cenedlaethol ynghyd i ystyried cyfleoedd cydweithredol er mwyn meithrin newid cymdeithasol cadarnhaol.

   Datblygodd **Think & Do** o Transition Kentish Town a bu'n cydweithio gyda Chyngor Camden, darparwyr tai cymdeithasol a thrigolion i greu cyfleoedd 'Rhannu Lleoedd' mewn neuaddau Tenantiaid nas wneir defnydd llawn ohonynt. O hyn, datblygodd clwb arbed ynni, cynllun plannu coed ar draws ystadau Camden a'r Caffi Cholo Khā'i ynghyd â menter arlwyo gymdeithasol. Bellach maent wedi cefnogi 8 o gymunedau eraill ar draws Llundain i gychwyn prosiectau rhannu lleoedd.

Trawsnewid gyda'n Gilydd yn grymuso cymunedau

Gwirfoddolwyr sy'n cynnal grwpiau a phrosiectau Trawsnewid, ac weithiau, nifer fach o swyddi rhan amser. Gall newid cymryd amser; mae prinder cyllid yn ffactor; roedd y pandemig wedi amharu'n sylweddol ar weithgaredd yn y gymuned. Mae'n hanfodol cael cymorth ymarferol a moesegol er mwyn goresgyn rhwystrau.

Mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi creu cysylltiadau gydag ac wedi darparu adnoddau i grwpiau dros y tair blynedd diwethaf, gan greu fframwaith o gymorth i alluogi cymunedau i arwain ar newid yn eu hardaloedd lleol nhw.

Hwyluso cysylltiadau a chefnogaeth gan gymheiriaid
Mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi creu'r amodau er mwyn i grwpiau sy'n gweithio er newid dan arweiniad y gymuned allu rhannu llwyddiannau a heriau, er mwyn dysgu oddi wrth a chefnogi a chydweithio gyda'i gilydd.

Yng Ngwanwyn 2022, lansiwyd Vive, platfform rhwydweithio cymdeithasol moesegol, sy'n rhydd rhag hysbysebion ac algorithmau ar gyfer grwpiau Trawsnewid a grwpiau sy'n gweithio ar sail egwyddorion tebyg. Mae gennym gymuned gynyddol o 1,200 o unigolion

sy'n ysgogi newid ledled y DU sy'n cysylltu, yn datrys problemau ac sy'n rhannu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau gyda'i gilydd yn Sgwâr y Dref a'n mannau a seilir ar ddaearyddiaeth a themâu. Hefyd rydym yn cynnig mannau preifat ar gyfer grwpiau a chymunedau ymarfer er mwyn cydweithio, gan gynnig teclyn fideo-gynadledda ffynhonell agored, adnoddau rhannu dogfennau ac arfau eraill, a'n gobaith yw cefnogi rhagor o grwpiau i ymateb i'r cynnig hwn.'

Mae ein Rhaglen o Ddigwyddiadau yn creu mannau lle gall Trawsnewidwyr ac eraill gyd-ddysgu, clywed am syniadau a mentrau newydd, ystyried materion trafferthus a chael eu hysbrydoli a'u cynnal trwy fod yn rhan o fudiad mwy. Roedd 946 o unigolion yn bresennol yng Nghynhadledd 2022 'Gallwn gyda'n Gilydd' dros 32 o sesiynau ar-lein a ddyluniwyd i feithrin, adeiladu ac ysbrydoli'r sawl sy'n gweithio er budd newid dan arweiniad y gymuned. Rhennir y cyfresi hyn a chyfresi ar-lein eraill megis Transition Alive!, ystyried Trawsnewid Cyfiawn, ehangu a chydlynu'r dyfodol, ar sianel brysur ar restr chwarae ar Youtube a wyliwyd 22,413 o weithiau i ymestyn y cyrraedd a'r dysgu. Bu 105 o bobl yn cymryd rhan mewn dau sesiwn rhanbarthol wyneb yn wyneb yn ystod 2023, gan feithrin cysylltiadau dyfnach a chyfleoedd parhaus i gydweithio. Yn 2024, bu tîm o blethwyr rhwydwaith yn estyn allan i grwpiau er mwyn creu cysylltiadau rhagweithiol ymhlith grwpiau. Arweiniodd hyn at Gynulliad Trawsnewid ar ddechrau 2025, pan ddaeth 120 o Drawsnewidwyr ynghyd wyneb yn wyneb ac ymunodd 30 o gyfranogwyr eraill mewn sesiwn tebyg ar-lein.

Canoli Trawsnewid Cyfiawn ar lefel y gymuned
Dros dair blynedd, mae'r angen i newid i ddyfodol sy'n blaenoriaethu tegwch, gofal a chyfiawnder yn ogystal ag adfywio'r amgylchedd a'r hinsawdd, wedi dod yn fwyfwy gorfodol yn ein prosiect ni.

Yn 2023, wnaethon ni benodi Arweinydd ar gyfer Trawsnewid Cyfiawn i weithio gyda'n rhwydwaith o 270 o grwpiau cymunedol er mwyn ystyried sut y gellir canoli cyfiawnder yn eu gweledigaeth ar gyfer eu cymuned nhw, eu blaenoriaethau a'u prosiectau a ffyrdd o weithio. Mae digwyddiadau megis Alive to the Call of Justice ac erthyglau wedi dangos sut y gall cymunedau Trawsnewid cyflawni hyn o safbwynt ymarferol, a sut maent yn gwireddu hyn.

Yn Ebrill 2024, lansiwyd *Cultivating Just Transition,* rhaglen ddysgu chwe mis ei hyd ar gyfer y sawl sy'n derbyn cyllid sbarduno. Trwy hyn crëwyd lle i grwpiau ddysgu gan actifyddion ym maes Cyfiawnder Anabledd, hygyrchedd, cyfiawnder hinsawdd byd-eang, hawliau gweithwyr, gorthrymder, grym a braint, ac i ystyried gyda'i gilydd sut i ddod â'r themâu hyn yn fyw mewn ffordd ystyrlon yn eu cyd-destun a'u gwaith lleol.

Yn Rhagfyr 2024, sefydlwyd ‘Just Transition Circle’ (Cylch Trawsnewid Cyfiawn), sy’n gwahodd pobl sydd â phrofiad o fyw gyda gorthrymder a chael eu heithrio i lywio a chyfarwyddo camau nesaf ein gwaith ym maes Trawsnewid Cyfiawn a sut i ddod â’r themâu hyn gerbron y Cynulliad Trawsnewid a thu hwnt.

Mae’r Prosiect ‘Community Roots Permaculture’ yn angerddol ar gyfer dod â sgiliau tyfu bwyd i’w hystâd yn Bolton. Plannwyd coed ffrwythau yng ngerddi’r trigolion ac maent yn rhedeg gardd gymunedol, sy’n rhoi’r cyfrwng i bobl gynhyrchu eu bwyd iachus lleol eu hunain mewn ardal lle mae defnydd uchel o’r banc bwyd. Darllen rhagor

Magu capasiti cymunedau
Trwy ddefnyddio ein sianeli cyfathrebu i hyrwyddo’r effaith mae cymunedau’n ei chael er mwyn llywio eu dyfodol, yn eraill yn cael eu hysbrydoli i weithredu. Roedd Trawsnewid gyda’n Gilydd yn cynnig mwy nag esiamplau; llwyddodd ein rhaglenni i roi’r adnoddau i actifyddion newydd a phresennol o safbwynt gwybodaeth, arfau, hyfforddiant a chyllid cychwynnol er mwyn cychwyn a datblygu eu gweithredu.

Dosbarthwyd £430,000 mewn grantiau bach a arweiniodd at gydweithio newydd ar lefelau lleol megis Friends of the River Exe, agorwyd llwybrau newydd er mwyn gweithredu a chyfnewid, megis Leicester Community Climate Connectors gweithdai Gujarati, a ffyrdd newydd i gymunedau ddiwallu eu hanghenion unigol megis Transition Constantine’s free food stall. Roedd yn caniatáu i gymunedau arloesi a rhedeg cynlluniau peilot ar gyfer atebion newydd a ddyluniwyd ganddynt, ac roedd wedi helpu grwpiau i ail-gychwyn eto, cryfhau a chynnal eu hunain yn sgil y pandemig. Ynghyd â’r grantiau hyn, cafwyd cymorth cyfannol i gefnogi capasiti grwpiau i dyfu, cynllunio, gwerthuso, ymgynghori, cysylltu a rhannu gyda chymunedau eraill ar draws y cenhedloedd, ac ymwreiddio cyfiawnder cymdeithasol yn eu prosiectau.

Roedd mewnbwn gan grwpiau wedi helpu llunio rhaglen hyfforddi i ddiwallu anghenion a chamau datblygiad amrywiol. Bu **Launch** yn helpu’r sawl oedd yn newydd i fyd gweithredu cymunedol gychwyn ar seiliau cadarn, a chyflwynwyd y rhaglen 5 gwaith i 60 o gyfranogwyr, gan arwain at sefydlu grwpiau newydd megis Win Green Town. Cwrs chwe wythnos yw **Thrive** sy’n helpu grwpiau a sefydlwyd eisoes i fyfyrio, newid cyfeiriad neu dyfu eu heffaith. Daeth 78 o gyfranogwyr mewn 4 carfan a chafwyd cydgefnogaeth a maeth trwy weithio ochr yn ochr ag eraill oedd yn ymwneud â gweithredu cymunedol. Bu 7 grŵp arall yn cymryd rhan yn ein rhaglen mentora ‘Scale Up’ a daeth 10 ar ein cwrs Hyfforddi’r Hyfforddwr er mwyn ehangu eu capasiti hyfforddi yn y mudiad. Cynhaliwyd 14 o sesiynau **Skillshare** unigol er mwyn ystyried cwestiynau ac anghenion penodol, megis codi arian, hyrwyddo lleisiau pobl ifanc, a gweithio gyda chynghorau.

Hwb ar gyfer gweithredu a chysylltu yng Nghaerfyrddin
Sefydlwyd Caerfyrddin Gyda’n Gilydd fel grŵp newydd yn 2022, gan gymryd rhan mewn hyfforddiant Thrive a derbyn grant cyllid sbarduno er mwyn cynnal cynhadledd ar yr hinsawdd i blant yn y lle cyntaf, ac yn sgil hynny daethpwyd â 15 o grwpiau lleol ynghyd i

gysylltu a rhannu eu gwaith. Trwy'r cysylltiadau hyn, datblygodd gweledigaeth i agor hwb cyhoeddus ar thema'r hinsawdd a chymuned – blwyddyn ar ôl eu lansiad, agorwyd drysau Sero Caerfyrddin. Mae'n cynnig adnoddau amrywiol megis llyfrgell pethau, caffi atgyweirio, digwyddiadau rheolaidd, cynlluniau cyfnewid a gweithdai; mae wedi datblygu'n ganolbwynt ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd ac mae'n lle gweladwy i bobl ymgysylltu. Trwy grant cyllid sbarduno arall, cefnogwyd gweithiwr Cymraeg i ehangu ymestyn y prosiect ymhellach i'r gymuned Gymreig. Mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi lledu eu stori a'u dysg mewn erthyglau a digwyddiadau ar-lein, gan gynnwys panel ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru 2024.

Meithrin ehangu a dyblygu

Trwy greu seilwaith ar hyd a lled y genedl i gefnogi camau gweithredu ymarferol cymunedau, mae Trawsnewid gyda'n Gilydd wedi hwyluso'r broses o gael hyd i a gweithredu atebion ar lawr gwlad, a leolir yn lleol.

Mae ein sianeli cyfathrebu'n cyrraedd dros 1,500,000 o bobl trwy straeon ac enghreifftiau o newid dan arweiniad y gymuned. Ochr yn ochr â'n platfform Vive a digwyddiadau, maent yn cynnig bwydlen o atebion ymarferol sy'n barod i'w haddasu i gyd-destunau gwahanol.

Mae sesiynau rhannu sgiliau, hyfforddiant a chanllawiau'n paratoi pobl gyda'r wybodaeth a'r arfau sydd eu hangen i gychwyn mentrau newydd ac ehangu rhai sy'n bodoli eisoes. Rydym wrthi'n datblygu hwb adnoddau ar-lein, ffynhonell agored, i ddod â'r holl wybodaeth yma ynghyd.

Yn olaf, mae'r cyllid sbarduno a ddarparwyd wedi cynnig ysgogiad, cyllid a chymorth cyfannol i alluogi cymunedau i gymryd y cam yma, ac adnoddau i weithredu atebion newydd.

Tu hwnt i'r mudiad Trawsnewid, mae ein cefnogaeth o CTRLShift wedi meithrin rhwydwaith o dros 45 o sefydliadau cenedlaethol er mwyn rhannu gwybodaeth a chydweithio. Bu nifer o brosiectau prototeip, gyda chymuned ymarfer yn gyffredin iddynt, yn ystyried dulliau gwaith arloesol o ran meithrin grym y gymuned, ac rydym wedi proffilio'r mentrau hyn er mwyn i eraill ddysgu oddi wrthynt.

Mae ein fframwaith 3D ar gyfer monitro, gwerthuso a dysgu yn caniatáu inni fyfyrio ar sut mae Trawsnewid gyda'n Gilydd a'n grwpiau lleol yn cael effaith. Mae'n ystyried sut rydym yn ymestyn ein cyrhaeddiad, yn ymwreiddio ein harferion, ac yn ymestyn ein capasiti i weithredu dros amser gyda'r nod o fagu dyfodol ffynniannus, gwydn ac adfywiol. Seilir yr adroddiad byr hwn ar ein darganfyddiadau ac adborth, a bydd dadansoddiad manwl ar gael trwy ofyn amdano yng Ngwanwyn 2025.

Pobl ifanc yn llunio'r dyfodol yn Chipping Norton
Yn sgil y pandemig, roedd Transition Chipping Norton wedi lleihau i gwpl o wirfoddolwyr. Rhoddwyd cyllid sbarduno iddynt ar gyfer capasiti ychwanegol er mwyn sefydlu elusen gofrestredig a chychwyn prosiectau newydd, gan gynnwys clwb ieuenctid awyr agored hynod lwyddiannus, sesiynau cyfnewid rheolaidd, prosiectau natur a chaffi atgyweiriio. Yn ôl Cara Hedges o'r grŵp: "Mae hanner yr hyn a wnawn yn waith ieuenctid; rydym wedi llwyddo i amlygu anghenion pobl ifanc, ac rydym yn gweithio gyda'r cyngor i gael rhagor o ddarpariaeth. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y grant Trawsnewid a dderbyniwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl, pan wnaethon ni newid yn elusen er mwyn bod mewn sefyllfa i ddenu rhagor o gyllid; mae wedi bod yn anhygoel." Maent wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ar brosiectau ieuenctid mewn sesiwn Rhannu Sgiliau Trawsnewid ac mewn erthygl.

Trawsnewid gyda'n Gilydd – y niferoedd

£430,000 wedi ei ddosbarthu trwy166 o grantiau cyllid sbarduno
155 wedi cymryd rhan mewn 62 o sesiynau hyfforddi
14 o sesiynau rhannu sgiliau
1,500 wedi mynychu digwyddiadau ar-lein
305 wedi mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb
1.5m wedi eu cyrraedd gyda straeon ysbrydoledig o newid dan arweiniad y gymuned
45 o bartneriaid cenedlaethol wedi eu cysylltu trwy CTRLShift
1,200 yn defnyddio Vive
35 grŵp Magu Trawsnewid Cyfiawn

Yr hyn rydym yn ei adeiladu

Un o nodau allweddol prosiect Trawsnewid gyda'n Gilydd oedd meithrin datblygu systemau a strwythurau lle gall cyfranogwyr mewn grwpiau lleol lywio, siapio a chyfarwyddo'r gweithgarwch cenedlaethol. Yn 2022-23, bu tîm o Drawsnewidwyr yn ystyried sut y trefnwyd hyn mewn gwledydd a sefydliadau eraill. Aethant ati i ymgynghori ar y gwerthoedd sy'n ein huno, gan ystyried opsiynau i symud ymlaen yn hyn o beth.

Ym Mehefin 2024, sefydlwyd tîm o Wehyddwyr Rhwydwaith er mwyn estyn allan, cyfoethogi'r deialog a symud yr ystyried o theori yn ymarfer. Uchafbwynt yr holl waith yma fydd y Cynulliad Trawsnewid, sef digwyddiad cyfranogol wyneb yn wyneb ym mis Chwefror 2025, sy'n uno 120 o bobl o ledled y DU er mwyn llunio camau nesaf Trawsnewid yma. Mae Youth Caucus wedi cefnogi wyth actifydd i gymryd rhan yn y digwyddiad, a sicrhau y caiff profiad a sylwadau pobl ifanc eu clywed yn y broses hon.

Mae'r mudiad mewn sefyllfa dda i allu adeiladu ar ganlyniadau'r Cynulliad hwn a pharhau i hwyluso newid dan arweiniad y gymuned ar draws y wlad yn 2025 a thu hwnt.

- **rhwydwaith** o grwpiau gyda'u gwreiddiau yn y gymuned ar draws y pedair cenedl, gyda gwell cysylltiadau, gwell adnoddau a sgiliau nag o'r blaen
- Vive, **platfform ar-lein** er mwyn cefnogi cymheiriaid, rhannu a threfnu
- Cannoedd o brosiectau unigol a gychwynnwyd gan gymunedau Trawsnewid dros y tair blynedd diwethaf, llawer ohonynt yn bosibl diiolch i **gyllid sbarduno**
- **Arfau a chanllawiau** i gefnogi gweithredu gan y gymuned, sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd mewn hwb adnoddau ar-lein
- Yn gynnar yn 2025, **cwrs hyfforddi'r hyfforddwr** er mwyn ehangu a datganoli capasiti hyfforddi
- Llu o straeon ac **astudiaethau achos** o gymunedau sy'n gwneud newid er mwyn symud y naratif o ran grym cymunedau ac ysbrydoli dyblygu a gweithredu

Ble nesaf?

Bydd y seilwaith yma'n parhau i gefnogi'r mudiad dros y blynyddoedd i ddod. Byddai cyllid ychwanegol yn:

- Caniatáu datblygu swyddogaeth Vive a'i integreiddio i blatfformau eraill.
- Parhau i hwyluso cyfnewid dysg ymhlith cymunedau a dyblygu prosiectau effeithiol.
- Codi proffil a dangos potensial ymatebion dan arweiniad y gymuned i'r argyfwng hinsawdd a phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys wrth i Drawsnewid gyrraedd ei benblwydd yn 20 oed yn 2026.
- Cyrraedd a chefnogi rhagor o gymunedau i gychwyn taith i ail-ddychmygu ac ail-adeiladu eu lleoedd nhw.
- Atgyfnerthu'r gwaith ar gyfer Trawsnewid Cyfiawn ar lefel y gymuned.
- Cyfrannu at dwf mentrau dan arweiniad y gymuned, a'u helpu i gael mwy o effaith.
- Hwyluso cymunedau i chwarae eu rhan wrth gyflymu'r trawsnewid i ddyfodol adfywiol, gwydn a chyfiawn ar gyfer ein cymunedau a'n cenhedloedd.

Yn ogystal â chyllid grant, rydym hefyd yn ystyried dulliau amgen i greu incwm, gan gynnwys dysgu o fentrau cymdeithasol llwyddiannus a chreu ynni adnewyddadwy yn benodol, er mwyn creu ffrydiau incwm newydd i hwyluso gwaith newid dan arweiniad y gymuned ar lefel leol a chenedlaethol. Byddai hyn yn diogelu'r gwaith yn yr hirdymor, a chaniatáu i actifyddion ail-lywio egni o godi arian i wireddu prosiectau llawn effaith.

"Os byddwn yn aros am y llywodraethau, bydd hi'n rhy ychydig, rhy hwyr.
Os byddwn yn gweithredu fel unigolion, ni fydd hi'n ddigon.
Ond trwy weithredu fel cymunedau, hwyrach y bydd hi'n ddigon, ac mewn pryd".
Ben Branwyn, Cyd-sylfaenydd y Mudiad Trawsnewid.

Cefnogir Trawsnewid gyda'n Gilydd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cylllidwr mwyaf gweithgaredd cymunedol, trwy'r rhaglen Tyfu Syniadau Gwych. Rydym yn ddiolchgar i bobl sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol am wneud y gwaith yma'n bosibl.